Partneriaeth S4C gyda Chonsortiwm BAFTA albert

Mae'n holl bwysig fod cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o'r ffordd y mae cynnwys S4C yn cael eu cynhyrchu. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau ein bod yn cadw ein heffaith amgylcheddol mor isel â phosibl. Ein nod yw gwneud popeth yn ein gallu i helpu ac annog y cynhyrchwyr rydym yn gweithio â nhw i roi blaenoriaeth i'r amgylchedd wrth gynhyrchu cynnwys.

Ym mis Medi 2021 cychwynnodd S4C ei phartneriaeth gyda chonsortiwm BAFTA albert, sef cymdeithas o rai o gwmnïau cynhyrchu a darlledwyr mwyaf y DU, er mwyn cyflawni hyn, ac ymgorffori cynaliadwyedd yn ein proses gynhyrchu:


- trwy wneud cwblhau cyfrifiannell ôl-troed carbon albert yn orfodol ar yr holl gynnwys a gomisiynir gennym; a
- trwy fynd ati i annog cynyrchiadau i gwblhau proses ardystio albert ar gyfer eu cynnwys.

Mae'r ofynion hyn wedi bod yn orfodol ers 1 Ionawr 2022 (heblaw ei bod yn gyfres dan 15 munud o hyd a/neu bod cyfanswm y gyllideb yn llai na £50,000).

Lansiwyd "twlcit cenhedlaeth newydd" (NGT) BAFTA albert ar 16 Medi 2026, gyda'r nod o wneud y proses yn haws ac yn symlach i gwmnïoedd ei gwblhau.

Newidiadau yn y NGT

Mae dau lwybr i'r NGT:



- **Albert *Certified*:** dyma'r llwybr safonol, ac yn addas ar gyfer cynyrchiadau sy'n gallu darparu tystiolaeth yn agos at neu syth ar ôl cyflwyno.
- **Albert *Committed*:** dyma eithriad ar gyfer cynyrchiadau sy'n methu dilyn y llwybr *Certified* (e.e. darllediadau byw, darllediadau parhaol megis Newyddion), ond dal angen defnydd o'r logo ar gredydau cloi cyn y dyddiad darlledu

Os ydych yn dilyn y llwybr albert *Certified*, does dim angen cyflwyno eich cynlluniau o flaen llaw. Serch hynny, argymhellion S4C yw bod pob cynhyrchiad yn ymwneud â'r proses albert o'r cychwyn cyntaf, gan ddefnyddio'r Canllawiau Cynhyrchu'n Gynaliadwy a'r teclyn Cyfrifiannell Carbon i wneud y proses mor effeithiol ac effeithlon â phosib.

Am ragor o wybodaeth am y NGT, gan gynnwys templedi, a hyfforddiant, ewch i https://baftaalbert.org/topic/next-generation-toolkit.